Grantiau amaeth-amgylcheddol a chyngor technegol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)
£ Tir Gofal: cynllun fferm gyfan (TG)
£ Cytundebau rheoli SoDdGA
(gan gynnwys Cynllun Afonydd Byw LRS)
📖 01646 624000
www.ccw.gov.uk

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)
£ Gwarchod y Parc (GyP)
£ Cytundebau Rheolaeth
☎ ⇔ 0845 3457275
www.arfordirpenfro.org.uk

Cyswllt Ffermio (CFf)
£ Grant Gwella'r Fferm (GGFf)
📖 ☎ 🧍 08456 000813
www.farmingconnect.co.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC)
£ Grant Amcan 1 Pysgodfeydd (GP)
📖 ☎ 🧍 01792 325500
www.environment-agency.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC)
£ Cynlluniau Grant Coetir (CGC)
01873 850060 www.forestry.gov.uk

Grŵp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt (GYFfBG)
📖 ☎ 🧍 01341 421456
www.fwag.org.uk

Canolfan Organig Cymru (OCW)
£ Cynlluniau Ffermio Organig (CFfO)
📖 ☎ 01970 622100
www.organic.aber.ac.uk

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
📖 ☎ 01767 680551
🧍 Cynghrair Ffermwyr
Gwirfoddol www.rspb.org.uk

Butterfly Conservation (BC)
📖 01929 400209
www.butterfly-conservation.org

Plantlife Wales
📖 01248 385445
www.plantlife.org.uk/html/wales/wales_index.htm

Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro (YASB)
☎ 🧍 01834 861203
www.pembsrt.org

📖 Taflen / gwybodaeth ☎ Cyngor 🧍 Ymweliad
⇔rhwydweithiau pori a pheirianwaith
£ Grant ar gael (cyngor ac ymweliadau safle ar gael os ydych chi'n ceisio am grant)

This leaflet is also available in English, contact Bethan Cox 0790 1541727 for an English copy.

Ffermio a Bywyd Gwyllt

Pwll syml wedi ei greu yng nghornel y cae, gyda chlawdd wedi plygu a choed tal y tu ôl.

Sut i wneud y defnydd gorau o'r cymorth amaeth-amgylcheddol ariannol a thechnegol sydd ar gael yn Sir Benfro.

Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

Pembrokeshire Biodiversity Partnership

Codau Arfer Amaethyddol Da. ££
Mae'r codau yma ar gyfer dŵr, aer a phridd yn gyfres o ganllawiau arfer da i ffermwyr eu dilyn ac maen nhw'n lleihau'r risg o achosi llygredd ac yn diogelu adnoddau naturiol y fferm.

📖 UAC, NFU, CPT, AA-C, RSPB, CFf

Cloddiau ££
Torrwch y rhain ar gylchdro 2-flynedd, o leiaf, ac mae'n well torri ar ôl mis Ionawr oherwydd mae'r rhan fwyaf o'r pryfed yn cysgu ac mae'r coed a'r llwyni wedi gorffen ildio ffrwyth. Peidiwch â thorri yn ystod y cyfnod y mae'r adar yn atgenhedlu, sef Mawrth-Gorffennaf. Gadewch ambell goeden fel postyn canu ar gyfer aderyn sy'n atgenhedlu. Mae pili-palaod Hairstreak brown yn dodwy eu wyau ar blanhigion ifainc y llwyni ac nid ydynt yn gallu goroesi ffustio blynyddol.

£ TG, GGFf, GyP ar gyfer plannu a rheoli coedwrych ar gyfer bywyd gwyllt.

Cynnal neu blannu coed brodorol £
Mae plannu neu gynnal coetir brodorol mewn man addas yn gallu gweithredu fel coridor o fywyd gwyllt, gan gysylltu cynefinoedd at ei gilydd a darparu cynefinoedd nythu a bwydo ar gyfer adar ac anifeiliaid eraill. Ceisiwch sicrhau bod gennych gyfuniad amrywiol o goed brodorol o wahanol oed. Gadewch domenni o bren marw ar gyfer pryfed mewn unrhyw fan ar eich fferm.

£ CGC, TG

📖 CCC, GYFfBG, CCGC, BC.

Peidiwch â gor-dacluso ££
Fe allwch adael hen domen y fferm er mwyn i fywyd gwyllt gymeryd drosto ac fe fydd llawer o blanhigion ac anifeiliaid yn elwa o'r tomenni gwastraff llonydd. Fe allent ddod yn dir hela ar gyfer ysglyfaethwyr fel nadredd defaid a chudyllod coch. Mae pentyrrau bach o gerrig a phren hefyd yn gallu darparu cysgod ar gyfer llawer o anifeiliaid.

Melyn yr eithin

Lleihau'r Defnydd o Gemegau £
Ceisiwch osgoi chwistrellu rhai adrannau o'r fferm i alluogi chwyn âr i dyfu ar hyd y ffiniau. Byddwch yn ofalus gyda meddyginiaeth mwydon, oherwydd mae olion Ivermectinau yn dal i fod mewn tail ac yn lleihau poblogaeth rhai o'r pryfed sy'n bwydo ar y tail sy'n torri tail gwartheg i fyny. Mae hyn yn achosi problemau i ystlumod ac ysglyfaethwyr pryfed eraill. Mae yna gynllun fferm gyfan ar gael os ydych chi am newid i ffermio hollol organig.

£ CFfO 📖 Plantlife

Mae cloddiau trwchus ar hyd ein lonydd yn goridorau

Adeiladau'r Fferm (£)
Mae tylluanod gwyn, gwenoliaid, gwenoliaid du, gwenoliaid y bondo ac ystlumod yn gallu nythu mewn adeiladau fferm sydd ddim yn cael eu defnyddio i storio bwyd. Ceisiwch adael llety iddyn nhw, neu annog mwy o le trwy adael planhigion sy'n dringo, fel iorwg, neu gynnig blychau nythu neu silffoedd.

£ TG, GGFf, GyP 📖 RSPB

Coenagrion Benfro

Gwarchod Nentydd ac Afonydd £
Crëwch ardaloedd llydan a garw sydd heb eu pori ar hyd nentydd ac afonydd i warchod bywyd gwyllt dŵr croyw rhag gwrtaith, tail, plaladdwyr a dŵr ffo o'r pridd. Rhowch gafnau neu gyfyngwch mynediad gwartheg at y nant i warchod y glannau. Fe fydd hyn yn gwella ansawdd y dŵr ac yn rhoi cynefin i famaliaid fel llygoden y dŵr a'r dyfrgi. Defnyddiwch hwsmonaeth pridd da i osgoi colli'r adnodd gwerthfawr hwn.

£ LRS, GP, TG 📖 AA-C, GYFfBG, YASB

Plannwch rawnfwydydd Gwanwyn a gadewch fonion gwellt y gaeaf yn y caeau. £
Mae'r bonion hyn yn dir bwydo da i fywyd gwyllt dros fisoedd y gaeaf. Fe fydd gadael planhigion eraill sy'n darparu bwyd yn hwyrach yn y flwyddyn hefyd yn denu mwy o fywyd gwyllt i'r fferm.
Fe fydd tyfu grawnfwydydd yn y Gwanwyn yn rhoi cyfle i adar fel yr ehedydd nythu dros mwy o'r cyfnod atgenhedlu.

£ TG, GGFf, GyP 📖 RSPB,

Gadewch ymylon garw o amgylch y caeau (£)
Fe fydd gadael stribed parhaol o leiaf 1m o led o amgylch y caeau yn galluogi nifer o chwyn âr i ymsefydlu ac mae'n rhoi lloches i famaliaid bach, pryfed, corynod ac adar. Fe allwch hefyd gysylltu cynefinoedd gyda glaswellt a blodau brodorol tal wrth dorri ar hyd traciau'r fferm a'r adeiladau bob yn ail flwyddyn yn unig i osgoi ymyrraeth gan brysgoed.

£ TG, GGFf, GyP 📖 Plantlife, BC

Darparu mannau gwlyb £
Cadwch lynnoedd a sgrapiau mewn mannau sy'n wlyb drwy'r amser. Cadwch rwydweithiau bach o ffosydd agored yn lle defnyddio draeniau tir lle'n bosib. Efallai fod y rhain yn sychu i fyny yn yr Haf ond maen nhw'n werthfawr i fywyd gwyllt fel gwas y neidr ac adar.

£ TG, GGFf, GyP 📖 GYFfBG, CCGC

ALLWEDD £ Grant ar gael (£) Dim cost ££ Arbed arian 📖 Taflen / gwybodaeth

NFU Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru
UAC Undeb Amaethwyr Cymru
CPT Cymdeithas Perchnogion Tir